Elusen Ogwen

Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Diffiniad

Cronfeydd wrth gefn yr elusen yw'r arian sydd ar gael i'w wario ar unrhyw un o ddibenion yr elusen.

Pam fod angen cronfeydd wrth gefn

Mae Elusen Ogwen yn derbyn bron ei holl arian gan Ynni Ogwen Cyf. Cymeradwyir cyllido'r elusen ym mis Medi bob blwyddyn yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ynni Ogwen.

Er mwyn lliniaru risg i'r elusen, cred yr ymddiriedolwyr mai doeth yw cadw'r lefel isaf o gronfeydd wrth gefn sy'n briodol i'r elusen ar gyfer cwrdd â chostau annisgwyl ac i helpu i gadw'r llif arian yn gyson ystod y flwyddyn ariannol.

Lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen

Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried bod cyllid yr elusen yn risg isel. Mae hyn oherwydd mai dim ond ar ôl iddi dderbyn cyllid digonol gan Ynni Ogwen y bydd yr elusen yn rhoi grantiau. Bydd unrhyw grantiau a roddir sy'n ymwneud â phrosiectau sy'n para am fwy na blwyddyn yn cael eu hariannu'n llawn ymlaen llaw fel bod yr elusen yn osgoi ymrwymiadau heb eu hariannu.

Yn ogystal, ar hyn o bryd nid oes gan yr elusen staff cyflogedig nac unrhyw asedau sefydlog sy'n gofyn am wariant rheolaidd.

Gan ei fod yn cael ei ystyried yn risg isel o ran cyllid, prif bwrpas gosod isafswm cronfeydd wrth gefn, felly, yw cael digon o arian yn y banc i dalu am wariant yr elusen yn ystod y flwyddyn neu i gwrdd ag unrhyw gostau annisgwyl.

Y flwyddyn ariannol 2021/22 fydd blwyddyn weithredu gyntaf yr elusen ac felly mae mwy o ansicrwydd ynghylch costau rhedeg gwirioneddol nag a fyddai fel arfer yn wir. Mae'r gyllideb ar gyfer 2021/22 yn cynnwys cyfanswm gwariant, cyn grantiau, o £700. Disgwylir na fydd gwariant parhaus yn fwy na £500 y flwyddyn.

Er mwyn bod yn ddarbodus yn y blynyddoedd cynnar o weithredu, mae'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu gosod isafswm y cronfeydd wrth gefn fel gwariant parhaus blwyddyn, h.y. £500. Bydd y swm hwn yn cael ei adolygu ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf o weithredu.

Lefel presennol y cronfeydd wrth gefn

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2021/22, roedd gan yr elusen incwm heb ei ddosbarthu (cronfeydd wrth gefn) o £12,150. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r elusen wedi dechrau hysbysebu am geisiadau grant eto. Yn ystod y flwyddyn, wrth i grantiau gael eu rhoi a threuliau gael eu talu, bydd lefel cronfeydd wrth gefn yr elusen yn gostwng.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, mae disgwyl i gyllid ychwanegol o £12,000 gan Ynni Ogwen gael ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi, sy'n golygu, yn ôl pob tebyg, y bydd gan yr elusen gyfanswm cyllid o £24,150.

O ystyried natur gweithgareddau'r elusen, a'r ffaith mai hon yw ein blwyddyn gyntaf o weithredu, mae'n bosibl y bydd y grantiau a roddir gan yr elusen yn llai na lefel y cyllid, ac felly gallai cronfeydd wrth gefn fod yn sylweddol uwch na'r isafswm ar rai adegau yn ystod y flwyddyn.

Adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn

Yn y tymor canolig, nid bwriad yr ymddiriedolwyr yw cynyddu cronfeydd wrth gefn ar lefel sy'n sylweddol uwch na'r isafswm. Bydd yr ymddiriedolwyr yn monitro lefel wirioneddol y cronfeydd wrth gefn trwy gydol y flwyddyn gyntaf o weithredu. Os yw'n ymddangos nad oes digon o geisiadau grant yn cael eu cyflwyno, yna gellir gwneud newidiadau i'r polisi rhoi grantiau, marchnata neu feysydd gweithredu eraill.

Cymeradwywyd y polisi hwn gan yr Ymddiriedolwyr ym mis Mai 2021. Cynhelir adolygiad ym mis Ebrill 2022.

Cyfarwyddyd:

Comisiwn Elusennau (2016), *Cronfeydd wrth gefn elusennau: meithrin gwydnwch* (CC19)
https://www.gov.uk/government/publications/charities-and-reserves-cc19.cy

Elusen Ogwen

Reserves Policy

Definition

The charity's reserves are defined as monies that are available to spend on any of the charity's purposes.

Why reserves are needed

Elusen Ogwen receives nearly all its funding from Ynni Ogwen Cyf. Funding the charity is approved each year at the Ynni Ogwen Annual General Meeting in September.

In order to mitigate risk for the charity, the trustees believe it is prudent to keep a certain minimum level of reserves in order to meet unforeseen costs and to help even out cashflow during the financial year.

What level of reserves are needed

The trustees regard the funding of the charity as low risk. This is because the charity will only make grants once it has received sufficient funding from Ynni Ogwen. Any grants made which cover projects lasting for more than one year will be fully funded upfront so that the charity avoids unfunded commitments.

In addition to this, the charity at present has no paid staff and no fixed assets which require regular expenditure.

As it is regarded as being low risk in terms of funding, the main purpose of the minimum reserve level, therefore, is to have sufficient funds in the bank to cover charity expenditure or to meet any unexpected costs.

The financial year 2021/22 will be the first year of operation for the charity and therefore there is more uncertainty about actual running costs than would normally be the case. The budget for 2021/2 includes total expenditure, before grants, of £700. Ongoing expenditure is expected to be no more than £500 per annum

In order to be prudent in its early years of operation, the trustees have decided to set a minimum level of reserves as being one year's ongoing expenditure, i.e £500. This amount will be reviewed at the end of the first year of operation.

Current Level of Reserves

At the start of the financial year 2021/2, the charity had undistributed income (reserves) of £12,150. This reflects the fact that the charity has not yet started advertising for grant applications. Over the course of the year, as grants are made and expenses are incurred on areas such as web design, so the level of reserves held by the charity will decline.

During the financial year 2021/2, additional funding of £12,000 from Ynni Ogwen is expected to be approved at the AGM in September, meaning that the charity is likely to have total funding of £24,150.

Given the nature of the charity's activities, and the fact that it is our first year of operation, it is possible that the grants made by the charity will be less than the level of funding, and therefore reserves could well be significantly higher than the minimum at some points during the year.

Review of reserves

In the medium term, it is not the intention of the trustees to accumulate reserves at a level significantly higher than the minimum. The trustees will be monitoring the actual level of reserves throughout the first year of operation. If it appears that insufficient grant applications are being received, then changes may be made to the grant making policy, marketing, or other areas of operation.

Policy approved by the trustees May 2021, with a formal review date of April 2022.

Reference:

Charity Commission, CC19 Charity Reserves, Building Resilience 2016
Charity reserves: building resilience - GOV.UK (www.gov.uk)